Urdd Gobaith Cymru

# Swydd Ddisgrifiad

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Teitl y swydd** : | Cynorthwyydd Technoleg Gwybodaeth | **Lleoliad** : | Un o brif swyddfeydd yr Urdd |
| **Adran** : | Technoleg Gwybodaeth | **Cyflog** : | Gweithredol 2: £24,879 – 26,016 y flwyddyn |
| **Oriau Gwaith** : | Llawn amser (35 awr yr wythnos) | **Cytundeb** : | Parhaol |
| **Yn adrodd i** : | Rheolwr Gweithrediadau TG | **Rheolaeth Llinell** : | Dim |

**Prif bwrpas y swydd**:

Y Cynorthwyydd TG yw'r prif bwynt cyswllt ar gyfer cefnogaeth TG ar draws y sefydliad, gan ddarparu cymorth amserol ac effeithiol i staff, gwirfoddolwyr a rhanddeiliaid.

Mae'r rôl yn canolbwyntio ar ddatrys problemau technegol cyffredin a rheoli tocynnau desg wasanaeth, gan sicrhau bod defnyddwyr yn derbyn cymorth clir a chyson.

Gan weithio fel rhan o'r tîm TG ehangach, mae deiliad y swydd yn cefnogi cyflawniad gweithrediadau TG dydd-i-ddydd trwy ystod o dasgau a chyfrifoldebau.

Mae'r rôl yn cyfrannu at brofiad defnyddiwr cadarnhaol a gweithrediad dibynadwy gwasanaethau TG, trwy waith cyson o ansawdd uchel ac ymagwedd ragweithiol at gefnogaeth.

Mae'r rôl yn addas ar gyfer unigolion sy'n datblygu gyrfa mewn TG ac sy'n dangos chwilfrydedd technegol, menter, ac ethos gwaith cryf.

---

**Prif ddyletswyddau a chyfrifoldebau**:

**Desg Wasanaeth a Chefnogaeth**

- Darparu cefnogaeth TG llinell gyntaf drwy Teams, e-bost, ffôn ac wyneb yn wyneb.
- Datrys materion cyffredin sy'n ymwneud â chaledwedd, meddalwedd a mynediad defnyddwyr.
- Rheoli tocynnau yn effeithiol, gan sicrhau diweddariadau cywir, cyfathrebu clir â defnyddwyr, a blaenoriaethu ac uwch gyfeirio priodol.

**Cynnal a Chadw**

- Cynorthwyo gyda thasgau gweithrediadau TG gan gynnwys gosod a chynnal dyfeisiau, meddalwedd a chyfrifon.
- Cefnogi gweithgareddau cylchol fel diweddariadau meddalwedd, gwirio systemau a gwaith rhwydweithio.
- Cynnal cofnodion cywir o asedau TG.

**Prosiectau a Digwyddiadau**

- Cynorthwyo gyda thasgau o fewn prosiectau TG.
- Darparu cefnogaeth TG ar y safle ar gyfer digwyddiadau'r sefydliad (e.e. Eisteddfod, Rygbi 7-bob-ochr).

**Diogelwch ac Arfer Da**

- Gweithio yn unol â safonau TG, gofynion diogelwch ac arferion gorau
- Cefnogi defnyddwyr gydag ymwybyddiaeth diogelwch sylfaenol (e.e. gwe-rwydo, hylendid cyfrineiriau).
- Adnabod ac adrodd ar faterion neu risgiau posibl.

**Dogfennu a Chyfrifoldebau Tîm**

- Creu a chynnal canllawiau defnyddwyr a dogfennaeth fewnol.
- Cymryd rhan a chyfrannu mewn cyfarfodydd tîm.
- Cyflawni tasgau i safon uchel, gan sicrhau bod gwaith yn cael ei gwblhau'n gywir a thocynnau'n cael eu datrys yn llawn.

---

**Manyleb y person a'r meini prawf: Cymwysterau, sgiliau a phrofiad**

*Nodiadau i ymgeiswyr:*

- *I ymgeisio, mae'n rhaid llenwi'r ffurflen gais yn llawn, gan roi enghreifftiau i gefnogi eich atebion. Mae'n rhaid i chi ddangos eich bod yn cwrdd â'r holl feini prawf hanfodol i gael eich cynnwys ar y rhestr fer.*
- *Ar ôl y dyddiad cau, ni fydd yr hysbyseb swydd hon ar gael ar ein Gwefan, felly cofiwch gadw copi ar gyfer eich cofnodion.*

| Hanfodol: | Dymunol: |
| --- | --- |
| 1. Cymhwyster TG sylfaenol neu wybodaeth/profiad gyfatebol amlwg.<br>2. Sgiliau cyfathrebu a rhyngbersonol cryf.<br>3. Sgiliau datrys problemau da ar gyfer materion TG cyffredin.<br>4. Gwybodaeth da am Systemau Gweithredu modern, Microsoft 365 a chymwysiadau cyffredin.<br>5. Sgiliau trefnu a blaenoriaethu da.<br>6. Profiad o weithio mewn rôl gwasanaeth | 1. CompTIA A+ neu tebyg.<br>2. Ymwybyddiaeth o gysyniadau rhwydweithio sylfaenol (DNS, DHCP, TCP/IP).<br>3. Ymwybyddiaeth o arferion gorau seiberddiogelwch.<br>4. Profiad mewn amgylchedd desg wasanaeth neu cefnogaeth TG.<br>5. Profiad o gefnogi digwyddiadau neu gweithio mewn amgylchedd tîm. |

cwsmer neu gymorth technegol (ffurfiol neu anffurfiol).

7. Profiad ymarferol o ddefnyddio a datrys problemau gyda thechnoleg.
8. Bydd angen meddu ar drwydded yrru llawn a char.

**Newidiadau i'r Swydd Ddisgrifiad**: Gall y disgrifiad swydd hwn newid neu gael ei ddiwygio ar unrhyw amser ar ôl ymgynghori â deiliad y swydd.

**Hyblygrwydd**: Tynnir eich sylw at y ffaith fod dyletswyddau a chyfrifoldebau penodol mewn rhai achosion yn anodd eu dadansoddi yn fanwl a gallent newid o dro i dro heb newid cymeriad cyffredinol y dyletswyddau na lefel y cyfrifoldeb.

Yn ychwanegol, mae'n ofynnol i bob aelod o'r staff dderbyn elfennau o hyblygrwydd yn eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau, a phan fo angen, cyfnewid er mwyn cyfarfod anghenion a gofynion y gwasanaeth sy'n newid yn barhaus. Bydd angen o'r fath yn galluogi i arbenigedd penodol y deilydd dyfu a datblygu er lles y cyflogwr a'r gweithiwr.

**Adolygiad**: Cyhoeddwyd y disgrifiad swydd yma ym mis Mai 2026 ac fe'i hadolygir yn gyson fel rhan o ddatblygiad yr unigolyn, ynghyd ag adolygiad perfformiad.

Bydd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus feddu ar drwydded yrru llawn ac yswiriant priodol sydd â sicrwydd ar gyfer defnydd busnes.

**Gwiriadau Perthnasol**: Bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus gael ei wirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG) yn ddibynnol ar leoliad gwaith.